

Cymdeithas Gwasanaethau

Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

3. Gweithio gydag eraill

3.7 Comisiynu



Yn hanesyddol yn y sector cyhoeddus, mae grantiau wedi eu rhoi ar sail proses o ymgeisio agored gan fudiadau sy'n chwilio am gyllid ar gyfer gwasanaethau y dymunant eu darparu. Yn anochel, mae hyn yn tueddu i arwain at ddarpariaeth fratiog lle mae bylchau gyda rhai gwasanaethau a dyblygu gydag eraill.

Beth yw comisiynu?

Yn ddiweddar, mae'r sector cyhoeddus wedi symud at fodel 'comisiynu' sy'n golygu ei fod yn adnabod y gwasanaethau y mae'n dymuno eu prynu gan y sector gwirfoddol neu gymunedol.

'Mae comisiynu wedi'i ddiffinio gan y Comisiwn Archwilio fel a ganlyn: comisiynu yw'r broses o nodi, sicrhau a monitro gwasanaethau i gwrdd ag anghenion pobl ar lefel strategol. Mae hyn yn digwydd gyda phob gwasanaeth, p'un ai y caiff ei ddarparu gan yr awdurdod lleol, y GIG, asiantaeth gyhoeddus arall neu gan y sectorau preifat neu wirfoddol.'

Comisiynu yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio proses gylchol, a ddyfeisiwyd i wella gwasanaethau. Mae ganddo sawl cam:

- adnabod a mesur yr angen am wasanaethau
- adolygu lefelau presennol y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu

- adnabod yr adnoddau sydd ar gael
- cytuno ar y canlyniadau yn y pen draw
- penderfynu ynghylch blaenoriaethau
- trefnu i ddarparu'r gwasanaeth
- monitro ac adolygu'r ddarpariaeth
- addasu a diwygio'r strategaeth.

Bydd gan awdurdodau lleol lawer mwy o ffocws ar y canlyniadau y byddant eisiau eu cyflawni gyda'u cyllid. Bydd y canlyniadau hyn yn seiliedig ar eu blaenoriaethau, ac fel arfer bydd y sector gwirfoddol a phartneriaid eraill wedi cytuno iddynt. Byddant hefyd wedi cael eu cyhoeddi mewn nifer o ddogfennau cynllunio.

Bydd awdurdodau lleol yn annog y sector i gynnig gwasanaethau sy'n cwrdd â'r canlyniadau hyn ac yn cytuno ar ddangosyddion perfformiad i'w helpu i fesur a ydyw'r canlyniadau wedi eu cyflawni neu beidio.

Cynllun gweithredu

Ar 6 Rhagfyr 2006, cyhoeddodd Swyddfa'r Cabinet ei chynllun gweithredu ar gyfer rôl y trydydd sector mewn gwasanaethau cyhoeddus ('y cynllun gweithredu'). Mae'n nodi'r camau y mae'r llywodraeth eisoes wedi eu cymryd i gefnogi'r sector ym maes gwasanaethau cyhoeddus, a'r camau a gymerir yn y dyfodol.

Mae'r cynllun gweithredu yn cydnabod y cyfraniad y mae'r trydydd sector eisoes yn, ac y gallai ei wneud, at greu a darparu gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel sy'n cael eu gwerthfawrogi gan bobl. Mae hefyd yn egluro bod rôl botensial y sector yn mynd y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol, ac yn cynnwys:

- dod ag elfen arloesol i bartneriaethau o fewn y sector cyhoeddus;
- helpu i ddylunio gwasanaethau; ac
- ymgyrchu dros newid sut y mae gwasanaethau'n cael eu darparu.

Ar yr un pryd, mae'r cynllun gweithredu'n cydnabod bod nifer o fudiadau trydydd sector heb unrhyw ddiddordeb efallai mewn gwasanaethau cyhoeddus ond a ddylai er hynny fod yn gallu derbyn cymorth llawn gan y llywodraeth.

Mae'r cynllun gweithredu'n cydnabod y diffygion yn y prosesau contractio presennol sy'n adnabyddus i lawer ers blynyddoedd bellach, gan gynnwys cyllid tymor byr, cydbwysedd risg anaddas, methu â chwrdd â chostau'n llawn a gormod o brosesau monitro

Mae'r cynllun yn adeiladu ar y gwaith a wneir eisoes gan y llywodraeth ac yn:

- amlinellu cynigion i wella trefniadau partneriaeth, yn enwedig wrth gomisiynu
- cyfuno cyfleoedd i'r sector gyfrannu at wella gwasanaethau; ac yn
- manylu ar fesurau i wella capasiti'r sector i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r llywodraeth yn parhau i fod yn ymrwymedig i roi grantiau lle bynnag y mae hynny'n briodol. Y rhwystrau penodol yw cyllid tymor byr,

cydbwysedd risg anaddas, systemau prasio sy'n atal adennill costau yn llawn a gormod o ofynion monitro a gwerthuso. Mae gan y llywodraeth nifer o gynlluniau yn eu lle i leihau'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â chontractio. Er enghraifft, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn datblygu system achredu i fesur cynnydd gyda pherfformiad ac a fydd, felly, yn annog darparwyr i wneud gwelliannau o'r naill flwyddyn i'r llall. Fodd bynnag, gellid gwneud mwy i symleiddio a safoni prosesau.

Mae Tasglu Comisiynu Trydydd Sector yr Adran Iechyd eisoes wedi datblygu contract model ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Er na fyddai'n briodol datblygu un contract ar gyfer y meysydd gwasanaeth i gyd, bydd pob adran sy'n rhan o'r cynllun gweithredu yn ystyried a allent ddefnyddio contractau templed mewn meysydd penodol o fewn gwasanaethau plant, addysg a hyfforddiant, gwasanaethau cyflogaeth a gwasanaethau prawf a charchardai. Dylai'r contractau hyn gynnwys cyllid sawl blwyddyn, ffocws ar ganlyniadau, cyn lleied â phosibl o fiwrocratiaeth, cydbwysedd risg priodol a modd i adennill costau yn llawn.

Mae'r llywodraeth yn cydnabod bod nifer o gontractau a grantiau i'r trydydd sector yn rhai tymor byr a bod hyn yn anfoddhaol. Felly, mae Trysorlys EM wedi sôn y disgwylir i lywodraeth ganolog a lleol drosglwyddo diogelwch eu trefniadau cyllido tair blynedd i unrhyw gorff trydydd sector y byddant yn ei ariannu o Ebrill 2008 ymlaen.

Mae'r cynllun gweithredu'n cydnabod yr arloesi y gall y sector ei gyfrannu at wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig o ran ysgogi gwelliannau sefydliadol o fewn y sector cyhoeddus; dod ag arloesedd i'r gwasanaethau presennol; bod yn ddyfeisgar wrth gysylltu gwasanaethau i'w defnyddwyr; a sefydlu gwasanaethau newydd.

Mae'r cynllun gweithredu'n cydnabod y rôl y gallai mudiadau trydydd sector ei chwarae gyda grymuso unigolion a chymunedau ac, felly, o ran gwneud gwasanaethau cyhoeddus yn atebol. Mae'r Llywodraeth wedi cynyddu ei hymdrechion i ymgysylltu â'r sector, gan gynnwys drwy bartneriaid strategol Swyddfa'r Trydydd Sector, Adolygiad o'r Trydydd Sector ac eraill. Mae trafodaethau hefyd yn parhau ynghylch rhan y claf mewn iechyd ac annog Cyfranogiad Lleol. Mae'r cynllun gweithredu'n cydnabod y cyfraniad y mae'r sector wedi'i wneud at wasanaethau cyhoeddus yn y deng mlynedd diwethaf, ac yn awgrymu ym mha feysydd y gallai'r rôl hon dyfu'n sylweddol yn y dyfodol:

- gwasanaethau prawf a charchardai, yn enwedig ymyriadau prawf;
- addysg a sgiliau i droseddwyr;
- drwy ddarparu gwybodaeth am wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig i bobl anabl;
- rhaglenni datblygu cymunedol a phersonol;

- gwasanaethau cefnogi teuluoedd a rhieni;
- Canolfannau Plant a thrwy ddarparu gwasanaethau gofal plant yn ehangach
- gweithgareddau ysgol estynedig a chadarnhaol i bobl ifanc;
- gwasanaethau cyfarpar cymunedol a chadair olwyn;
- trafnidiaeth gymunedol;
- gwasanaethau rheoli gwastraff lleol;
- galluogi pobl agored i niwed i fyw'n annibynnol.

Gwybodaeth bellach

Swyddfa'r Trydydd Sector
www.cabinetoffice.gov.uk/third_sector

Getting Ready for Contracts - A guide for voluntary organisations - 2il Argraffiad - www.sandy-a.co.uk

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
36-38 Stryd Fawr, Hwlfordd, Sir Benfro, SA61 2DA
Elusen Gofrestredig 1063289

Ffôn: 01437 769422 info@pavs.org.uk
Ffacs: 01437 769431 www.pavs.org.uk

Cynhyrwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 13/08/2007



Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk